Newyddlen CCAUC

HEFCW **Newsletter**

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Rhagfyr 2009 | December 2009

Cynnwys **Contents**		Full screen recommended Argymhellir sgrin lawn		
£2 million investment for skills and employment turnaround Buddsoddiad gwerth £2 filiwn ar gyfer newidiadau sgiliau a chyflogaeth	HEFCW welcomes new strategy for higher education CCAUC yn croesawu strategaeth newydd ar gyfer addysg uwch	Universities seek to increase donations Prifysgolion yn ceisio cynyddu rhoddion	In brief Yn fyr	New HEFCW website: www.hefcw.ac.uk Information about higher education, and for higher education providers.
Students in Wales show satisfaction with student experience Myfyrwyr yng Nghymru'n mynegi boddhad yn y profiad myfyrwyr	Students stay connected Cryfhau llais myfyrwyr	Welsh universities' commitment to young people from care Ymrwymiad prifysgolion Cymru i bobl ifanc sy'n gadael gofal	In-depth: GO Wales Graduate employability programme Cynllun cyflogadwyedd graddedigion GO Wales	Gwefan newydd CCAUC: www.hefcw.ac.uk Gwybodaeth ynglŷn ag addysg uwch, ac ar gyfer darparwyr addysg uwch.

£2 million investment for skills and employment turnaround

Higher education (HE) institutions in Wales have responded to the economic downturn in a number of ways. They are major employers, draw in students who contribute to the economy, attract inward and research investment and generate income through their own companies. In addition, they have brought forward several new building and maintenance projects, provided training and re-skilling, advice and study incentives.

Earlier this year, we awarded four projects £2.15 million under the Economic Support Initiative, to encourage universities to provide further help to individuals and businesses to weather the economic downturn.

The initiative will enable them to further protect or improve the employment prospects of employees in the Welsh economy, the recently unemployed and graduates entering employment. It will also allow them to support companies, including SMEs, in targeted sectors, by providing co-ordinated access to knowledge and expertise within higher education, to improve business performance and up-skill their workforce.

Buddsoddiad gwerth £2 filiwn ar gyfer newidiadau sgiliau a chyflogaeth

Mae sefydliadau addysg uwch (AU) Cymru wedi ymateb i'r dirwasgiad economaidd mewn sawl ffordd. Maent hwy'n gyflogwyr o bwys, tynnant fyfyrwyr i mewn sy'n cyfrannu at yr economi, denant fuddsoddi o'r tu allan a buddsoddi mewn ymchwil, a chynhyrchant incwm drwy eu cwmnïau eu hunain. Maent hwy hefyd wedi dechrau'n gynt ar nifer o brojectau adeiladu a chynnal, ac wedi darparu hyfforddiant ac ail-sgilio, cyngor a chymhellion astudio.

Yn gynharach eleni, dyfarnwyd £2.15 miliwn i bedwar prosiect o dan y Fenter Cymorth Economaidd, i annog prifysgolion i roi cymorth pellach i unigolion a busnesau i'w helpu drwy'r dirwasgiad.

Bydd y fenter yn eu galluogi i ddiogelu neu wella ymhellach ddisgwyliadau cyflogaeth gweithwyr yn economi Cymru, y rhai a gollodd eu swyddi'n ddiweddar a graddedigion sy'n dechrau gweithio. Bydd hefyd yn eu galluogi i gefnogi cwmnïau, gan gynnwys mentrau bach a chanolig, mewn sectorau a dargedwyd, drwy ddarparu mynediad cydlynol i wybodaeth ac arbenigedd mewn addysg uwch, er mwyn gwella perfformiad busnesau ac uwchsgilio eu gweithlu.

HEFCW welcomes new strategy for higher education

HEFCW has welcomed the publication by the Welsh Assembly Government of *For our Future – The twenty first century higher education plan for Wales.*

The plan follows a review of higher education in Wales chaired by Professor Merfyn Jones, Vice-Chancellor of Bangor University, and acknowledges the crucial role which HE plays in the social, cultural and economic development of Wales.

It sets out a range of expectations for HE with a particular, focus on the

CCAUC yn croesawu strategaeth newydd ar gyfer addysg uwch

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi croesawu cyhoeddi *Er Mwyn Ein Dyfodol – Cynllun addysg uwch yr unfed ganrif ar hugain i Gymru*.

Mae'r cynllun, a gynhyrchwyd yn sgil adolygiad o addysg uwch (AU) yng Nghymru dan gadeiryddiaeth yr Athro Merfyn Jones, Is-Ganghellor Prifysgol Bangor, yn cydnabod y rhan allweddol a chwaraeir gan AU yn natblygiad cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru.

Assembly Government's priorities of social justice and supporting a buoyant economy. Roger Thomas, Chairman of HEFCW, said: "The Education Minister has set out very clearly the pivotal position of higher education for the future of Wales and has laid at the door of all providers the challenge of reshaping and streamlining the HE system better to meet the needs of Wales. To HEFCW, she has given the task of implementing her vision – a challenge which we warmly embrace." Professor Philip Gummett, Chief Executive of HEFCW, said: "The plan emphasises how higher education contributes to economic recovery and development, as well as its equally important social and cultural contribution. It stresses the need for HE to focus on meeting the needs of the people of Wales, but recognises that it cannot do so without being an effective player on the international stage. HEFCW is tasked with providing details of actions, measures and timelines for delivering the plan by the Spring of 2010.	Yn y cynllun, manylir ar yr hyn y mae disgwyl i addysg uwch ei gyflawni, gan ganolbwyntio'n arbennig ar flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad, sef cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi economi ffyniannus. Meddai Roger Thomas, Cadeirydd CCAUC: "Mae'r Gweinidog Addysg wedi nodi'n glir mor allweddol yw addysg uwch i ddyfodol Cymru ac wedi gosod wrth ddrws pob darparwr yr her o ail-lunio a rhesymoli'r system AU fel y gall gwrdd ag anghenion Cymru'n well. Mae hi wedi rhoi'r dasg o weithredu'r weledigaeth hon i CCAUC – her yr ydym ni'n ei chofleidio'n wresog." Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Mae'r cynllun yn pwysleisio sut mae addysg uwch yn cyfrannu at adferiad a datblygiad economaidd, yn ogystal â'i chyfraniad cymdeithasol a diwylliannol llawn cyn bwysiced. Mae'n pwysleisio'r angen i AU ganolbwyntio ar fodloni anghenion pobl Cymru, ond yn cydnabod na all wneud hyn heb fod yn rym effeithiol ar y llwyfan rhyngwladol." Mae CCAUC wedi cael y dasg o ddarparu manylion y gweithredoedd, mesurau ac amserlenni ar gyfer cyflawni'r cynllun erbyn y Gwanwyn 2010.
Universities seek to increase donations Universities in Wales have been given a £10 million incentive to increase their fundraising abilities. The matched funding scheme for voluntary giving guarantees additional – matched - funding from HEFCW to supplement gifts to higher education institutions from organisations and individuals, including former students. It will allow universities to use additional funding on activities that will benefit them and their students, such as new study and library facilities, building projects, research programmes and student bursaries and scholarships.	Prifysgolion yn ceisio cynyddu rhoddion Mae prifysgolion Cymru wedi cael cymhelliad gwerth £10 miliwn i gynyddu eu gallu i godi arian. O dan y cynllun arian cyfatebol ar gyfer rhoi gwirfoddol, bydd CCAUC yn darparu arian ychwanegol – cyfatebol – ar gyfer rhoddion y mae sefydliadau addysg uwch (AU) yn eu derbyn gan gyrff ac unigolion, gan gynnwys cynfyfyrwyr. Bydd hefyd yn caniatáu i brifysgolion ddefnyddio cyllid ychwanegol ar weithgareddau a fydd o fudd iddynt hwy a'u myfyrwyr, megis cyfleusterau

Professor Philip Gummett, Chief Executive of HEFCW, said: “This is a major step forward in the way universities in Wales raise money. “A tightening of the public purse in the current economic climate means that higher education institutions will need to diversify funding sources. Initial steps, no matter how small, can over time be translated into large financial gains for the institutions.”	astudio a llyfrgell newydd, prosiectau adeiladu, rhaglenni ymchwil, a bwrsarïau ac ysgoloriaethau i fyfyrwyr. Meddai’r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: “Dyma gam mawr ymlaen yn y ffordd mae prifysgolion yng Nghymru yn codi arian. “Wrth i’r pwrs cyhoeddus gael ei dynhau yn yr hinsawdd economaidd bresennol bydd angen i sefydliadau addysg uwch geisio arian o amrywiaeth ehangach o ffynonellau. Gall y camau cychwynnol, ni waeth pa mor fach, gael eu trosi’n enillion ariannol mawr i sefydliadau dros gyfnod o amser.”
Evaluation of HEFCW’s Third Mission Fund 2004/05 to 2006/07 Our Third Mission Fund is designed to support and develop a range of knowledge exchange activities at higher education (HE) institutions which will result in benefits to both Wales and the UK. An evaluation of the first three years of this dedicated stream of funding found that it had helped focus and deliver institutions’ third mission activities, with the outcomes of these activities making a positive contribution to the social and economic well-being of Wales. There has been a significant growth in third mission income generated by Welsh HE institutions, and they have lead the way in the UK with formal collaborative arrangements in delivering these activities. The report considered a number of areas of strength and suggestions for further development. Universities in Wales also performed well in an annual survey showing how higher education institutions work with and generate business. They achieved more than their expected share over many economic indicators, including new business start-ups by both HE staff and students.	Gwerthusiad o Gronfa Trydedd Genhadaeth CCAUC 2004/05 hyd 2006/07 Nod ein Cronfa Trydedd Genhadaeth yw cynnal a datblygu amrywiaeth o weithgareddau cyfnewid gwybodaeth mewn sefydliadau addysg uwch (AU) a fydd yn dod â manteision i Gymru a’r DU. Darganfu gwerthusiad o dair blynedd gyntaf y ffrwd gyllido hon ei bod wedi helpu i ffocysu a chyflawni gweithgareddau trydedd genhadaeth y sefydliadau, a bod canlyniadau’r gweithgareddau hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at les cymdeithasol ac economaidd Cymru. Bu twf sylweddol yn yr incwm trydedd genhadaeth a gynhyrchir gan sefydliadau AU Cymru ac maent hwy wedi arwain y ffordd yn y DU drwy sefydlu trefniadau cydweithiol ffurfiol i roi’r gweithgareddau hyn ar waith. Bu’r adroddiad yn ystyried nifer o gryfderau ac awgrymwyd datblygiadau pellach. Gwnaeth prifysgolion yng Nghymru yn dda hefyd mewn arolwg blynyddol sy’n dangos sut y mae sefydliadau AU yn gweithio gyda busnes ac yn cynhyrchu busnes. Llwyddasant i sicrhau mwy na’u cyfran ddisgwyliedig ar draws ystod o ddangosyddion economaidd, sy’n cynnwys cychwyn busnesau newydd gan staff a myfyrwyr AU.

In brief

Did you know?

In the 2007/08 academic year, higher education institutions in Wales had a total income of £1,090 million (2006/07 £999m) of which 38.45% (2006/07 – 43.31%), came from HEFCW grants. (W09/09HE.)

W09/35HE: Third Mission Funding Arrangements 2010/11 to 2012/12: Consultation

This consultation sets out options for the continuing support of the HE sector's third mission activities for the academic years 20010/11 to 2012/13.

Council

Professor Robin Williams was appointed to HEFCW's Council on 1 August 2009, and his term will run for three years until 31 July 2012.

We also welcomed Katie Dalton, President, National Union of Students in Wales to her first meeting of HEFCW's Council as an observer.

Staff changes

Following the integration our Council's Widening Access Committee into the new Student Experience, Teaching and Quality Committee, colleagues who look after our widening access policy and initiatives have moved to the team whose activities form the predominant focus of the new committee. The Reaching Wider Manager and Senior Widening access Policy Manager are now in our Strategy, Learning and Funding team, with Celia Hunt responsible for this policy area as head of team.

Yn fyr

A wyddoch chi?

Yn y flwyddyn academaidd 2007/08, roedd gan sefydliadau addysg uwch Cymru gyfanswm incwm o £1,090 miliwn (2006/07 £999m), y daeth 38.45% (2006/07 – 43.31%) ohono o grantiau CCAUC. (W09/09HE)

W09/35HE: Trefniadau Cronfa Trydedd Genhadaeth 2010/11 hyd 2012/12: Ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno dewisiadau ar gyfer cefnogi gweithgareddau trydedd genhadaeth y sector AU yn ystod y blynyddoedd academaidd 20010/11 hyd 2012/13.

Y Cyngor

Penodwyd yr Athro Robin Williams i Gyngor CCAUC ar 1 Awst 2009 a bydd ei gyfnod yn y swydd yn para am dair blynedd hyd 31 Gorffennaf 2012.

Hefyd, croesawyd Katie Dalton, Llywydd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yng Nghymru, i'w chyfarfod cyntaf o Gyngor CCAUC fel sylwedydd.

Newidiadau staff

Yn sgil ymgorffori Pwyllgor Ehangu Mynediad ein Cyngor yn y Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd newydd, mae cydweithwyr sy'n gofalu am ein polisi a chynlluniau ehangu mynediad wedi symud i'r tîm y mae ei weithgareddau yn brif ganolbwynt i'r pwyllgor newydd. Mae'r Rheolwr Ymgyrraedd yn Ehangach a'r Uwch Reolwr Polisi Ehangu Mynediad bellach yn ein tîm Strategaeth, Dysgu a Chyllido, a Celia Hunt, fel pennaeth y tîm, sy'n gyfrifol am y maes polisi hwn.

W09/30HE: Research Excellence Framework: Second Consultation

This announces the publication of proposals for the Research Excellence Framework (REF) – the new arrangements for the assessment of research in UK higher education institutions that will replace the Research Assessment Exercise (RAE).

2008-09 Annual Report

2009 Annual Public Meeting

Tuesday, 15 December, Aberystwyth University Arts Centre
09.30 – 11:00

STEM programme

Part-funded by HEFCW, the Higher Education STEM Programme is an initiative to promote science, technology, engineering and mathematics (STEM) in England and Wales. Six partner universities, including Swansea University, will develop and initiate activities in their regions as part of the £21 million initiative. The programme will also help students to develop the skills required by employers, engage young people in STEM disciplines and encourage participation in these subjects in schools.

Information Toolkit for governors of higher education institutions

We have produced a new Information Toolkit for higher education governors, to share some of the wide range of information available to assist governors in meeting their obligations in steering and monitoring the overall strategic direction of their institution.

The Toolkit: shows HE activities through graphs and tables; outlines HE sector's performance to date against the Welsh Assembly Government's *Reaching Higher* targets; and sets out details of a range of useful data and

W09/30HE: Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil: Ail Ymgynghoriad

Mae hwn yn sôn am gyhoeddi cynigion ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil – y trefniadau newydd ar gyfer asesu ymchwil yn sefydliadau addysg uwch y DU a fydd yn cymryd lle'r Ymarfer Asesu Ymchwil (YAY).

Adroddiad Blynyddol 2008-09

Cyfarfod Cyhoeddus Blynyddol 2009

Dydd Mawrth, 15 Rhagfyr, Prifysgol Aberystwyth (Canolfan y Celfyddydau)
09:30 – 11:00

Rhaglen STEM

Wedi'i rannol gyllido gan CCAUC, pwrpas y Rhaglen STEM Addysg Uwch yw hyrwyddo gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg yng Nghymru a Lloegr. Bydd y chwe phartner brifysgol, gan gynnwys Prifysgol Abertawe, yn datblygu a chychwyn gweithgareddau yn eu rhanbarthau fel rhan o'r fenter hon sy'n werth £21 filiwn. Bydd y rhaglen hefyd yn helpu myfyrwyr i feithrin y sgiliau y mae cyflogwyr eu heisiau, denu pobl ifanc at ddisgyblaethau STEM, ac annog disgyblion i ddilyn y pynciau hyn mewn ysgolion.

Pecyn Offer Gwybodaeth i lywodraethwyr sefydliadau addysg uwch

Rydym wedi cynhyrchu Pecyn Offer Gwybodaeth newydd ar gyfer llywodraethwyr addysg uwch (AU), i rannu peth o'r wybodaeth helaeth sydd ar gael i helpu llywodraethwyr i gwrdd â'u cyfrifoldebau wrth lywio a monitro cyfeiriad strategol cyffredinol eu sefydliad AU.

Mae'r Pecyn Offer yn dangos gweithgareddau AU drwy gyfrwng graffiau a thablau; yn amlinellu perfformiad y sector AU hyd yma yn erbyn targedau *Ymgeisio'n Uwch* Llywodraeth Cynulliad Cymru; ac yn rhoi manylion amrywiaeth o adnoddau data a gwybodaeth, a gynhyrchir gan CCAUC neu

information resources, either produced by HEFCW or available more widely. It will be available shortly on our website under working with HE providers / leadership governance and management.	sy'n dod o ffynonellau eraill. Bydd ar gael cyn bo hir ar ein gwefan o dan Gweithio gyda darparwyr addysg uwch > Arweinyddiaeth, Llywodraethu a Rheolaeth.
Students in Wales show satisfaction with student experience An annual survey showed that the overall satisfaction for students studying in Wales remained just above the figure achieved for the UK as a whole. Results from the fifth annual National Student Survey (NSS) showed that 83% of respondents in Wales were satisfied with their course. The results from the 2009 NSS, which took account of the views of more than 12,000 students studying at Welsh universities, also saw improved outcomes for academic support and personal development, while further development was required in the areas of assessment and feedback..	Myfyrwyr yng Nghymru'n mynegi boddhad yn y profiad myfyrwyr Mae arolwg blynyddol yn dangos bodd boddhad cyffredinol myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru'n parhau mymryn uwchlaw'r ffigur a gyflawnwyd ar gyfer y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd. Dengys canlyniadau o'r pumed Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC) blynyddol fod 83% o ymatebwyr yng Nghymru yn fodlon â'u cwrs. Roedd y canlyniadau o AMC 2009, a wnaeth ystyried barn dros 12,000 o fyfyrwyr sy'n astudio mewn prifysgolion yng Nghymru, hefyd yn dangos gwelliant o ran cymorth academaidd a datblygiad personol, er bod angen gwneud rhagor o waith ym meysydd asesu ac adborth.
Students stay connected Universities and their students celebrated the role of the student voice in developing higher education in Wales at an event in the Senedd on 12 October. The event marked the publication of a cross-sector – including higher education (HE) organisations and NUS Wales – commitment, the *Wales Initiative for Student Engagement* (WISE), and launched the new 'Have your say' project. The 'Have your say' project puts students at the heart of future developments in higher education (HE) in Wales through to recruiting, training and empowering a network of student course representatives.	Cryfhau llais myfyrwyr Bu prifysgolion a'u myfyrwyr yn dathlu'r rhan a chwaraeir gan fyfyrwyr mewn datblygu addysg uwch yng Nghymru mewn digwyddiad a gynhaliwyd yn y Senedd ar 12 Hydref. Pwrpas y digwyddiad oedd nodi cyhoeddi ymrwymiad traws-sector, *Menter Ymgysylltu â Myfyrwyr Cymru (WISE)*, sy'n cynnwys sefydliadau addysg uwch (AU) ac NUS Cymru. Cafodd prosiect newydd o'r enw 'Dweud eich dweud' ei lansio'r un pryd. Mae'r prosiect 'Dweud eich dweud' yn rhoi lle canolog i fyfyrwyr mewn datblygiadau addysg uwch (AU) yng Nghymru ac yn ymdrin â recriwtio, hyfforddi a sefydlu rhwydwaith o gynrychiolwyr cwrs o blith y myfyrwyr.

WISE and ‘Have Your Say’ will help put Wales at the forefront of student engagement, leading to a greater ownership for students of their higher education experience, as well as wider leadership, representation and communication skills, making students’ university experience more fulfilling.	Bydd *Menter Ymgysylltu â Myfyrwyr Cymru* a ‘Dweud eich dweud’ yn helpu i wneud Cymru yn arweinydd ym maes ymgysylltu â myfyrwyr, drwy roi mwy o reolaeth i fyfyrwyr dros eu profiad addysg uwch a meithrin medrau arweinyddiaeth, cynrychiolaeth a chyfathrebu ehangach. Bydd hyn oll yn gwneud profiad y myfyrwyr yn fwy cyflawn.
Collaboration in higher education in Wales In November, Welsh Assembly Government gave the go-ahead for a five-year programme to study the impact of climate change on the land, sea and atmosphere. The £4 million research programme will bring together nearly 200 experts in four Welsh universities to improve our understanding of how climate change will affect the Earth’s environment and all our lives. The Climate Change Consortium, comprising Aberystwyth, Bangor, Cardiff and Swansea Universities, will also consider the effects of climate change on the planet’s ice and glaciers, and its social consequences. The Consortium, known as C3W, and funded via HEFCW, will provide information for schools, universities, businesses and the public, and will organise activities including road-shows, briefings and a display at the National Museum of Wales. Professor Philip Gummett, Chief Executive of HEFCW, said: “This is an important investment in the future of climate change research in Wales and the UK, and will help the institutions, and C3W, be recognised internationally as a centre of excellence. It will add to other recent investments in Wales in research into a low-carbon future and environmental sustainability, and will help with developing policies in Wales and beyond.” The same four institutions are involved in the first One Wales national	Cydweithio mewn addysg uwch yng Nghymru Ym mis Tachwedd, cafodd rhaglen bum mlynedd i astudio effaith newid yn yr hinsawdd ar y tir, y môr a’r atmosffer ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd y rhaglen ymchwil, sy’n werth £4 miliwn, yn dwyn ynghyd bron 200 arbenigwr o bedair prifysgol yng Nghymru a’i nod yw gwella ein dealltwriaeth o sut y bydd newid hinsawdd yn effeithio ar amgylchedd y Ddaear a bywydau pob un ohonom. Bydd y Consortiwm Newid Hinsawdd, sy’n cynnwys Prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd ac Abertawe, hefyd yn ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iâ a rhewlifoedd y blaned, a’r canlyniadau cymdeithasol. Bydd y Consortiwm, a elwir yn C3W, ac a gyllidir drwy CCAUC, yn darparu gwybodaeth at ddefnydd ysgolion, prifysgolion, busnesau a’r cyhoedd, a bydd yn trefnu gweithgareddau megis sioeau ffordd, sesiynau briffio, ac arddangosiad yn Amgueddfa Cymru. Meddai’r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: “Dyma fuddsoddiad pwysig yn nyfodol ymchwil i newid yn yr hinsawdd yng Nghymru a’r DU, a bydd yn helpu’r sefydliadau, a C3W, i gael eu cydnabod yn rhyngwladol fel canolfan rhagoriaeth. Bydd yn ychwanegu at fuddsoddiadau diweddar eraill yng Nghymru mewn ymchwil i ddyfodol carbon-isel a chynaliadwyedd amgylcheddol, a bydd yn helpu i ddatblygu polisi yng Nghymru a thu hwnt.”

research centre, the Research Institute for Visual Computing. The institute will strengthen research partnerships between computer science departments. Visual computing includes producing computer imagery for science and entertainment, and understanding information in images and video, and techniques developed will be used in science, engineering, arts and humanities, medicine and industry.

We, jointly with the ESRC, also confirmed funding for The Wales institute of Social & Economic Research, Data & Methods (WISERD) for three years. The institute, which includes Aberystwyth, Bangor, Cardiff and Swansea Universities and the University of Glamorgan, involves networks of social science researchers from the Welsh HE sector, and will build upon expertise in research methods, improve research data relating to Wales and increase collaborative research grant applications and interaction with policy makers.

More: W09/32HE: Reconfiguration and Collaboration

This circular informs institutions of amendments to the application procedures and assessment processes for proposals to the Reconfiguration and Collaboration Fund and Strategic Development Fund, which are to operate from September 2009 until further notice.

Mae'r un pedwar sefydliad yn gysylltiedig â chanolfan ymchwil genedlaethol gyntaf Cymru'n Un, y Sefydliad Ymchwil Cyfrifiadura Gweledol. Bydd y sefydliad yn cryfhau partneriaethau rhwng adrannau cyfrifiadureg. Mae cyfrifiadura gweledol yn cynnwys cynhyrchu delweddau cyfrifiadurol at ddefnydd gwyddoniaeth a'r diwydiant adloniant, a deall gwybodaeth mewn delweddau a fideo, a bydd y technegau a ddatblygir yn cael eu defnyddio mewn gwyddoniaeth, peirianneg, y celfyddydau a'r dyniaethau, meddygaeth a diwydiant.

Ar y cyd â'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, cadarnhawyd cyllid ar gyfer Sefydliad Ymchwil, Data a Dulliau Cymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) am gyfnod o dair blynedd. Mae'r sefydliad, sydd yn cynnwys Prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd ac Abertawe a Phrifysgol Morgannwg, yn dwyn ynghyd ymchwilwyr gwyddor gymdeithasol o'r sector AU Cymreig, a bydd yn adeiladu ar arbenigedd mewn dulliau ymchwil, yn gwella data ymchwil yn ymwneud â Chymru, ac yn cynyddu ceisiadau ar y cyd am grantiau a rhyngweithio gyda llunwyr polisi.

Rhagor: W09/32HE: Ailgyflunio a Chydweithio

Mae'r cylchlythyr hwn yn hysbysu sefydliadau o newidiadau i'r trefniadau gwneud cais a'r prosesau asesu ar gyfer cynigion i'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio a'r Gronfa Datblygu Strategol, a fydd yn weithredol o fis Medi 2009 ymlaen.

Welsh universities' commitment to young people from care

The number of Welsh universities demonstrating their commitment to supporting people with a care background to achieve their full potential continued to increase.

Eight Welsh universities and one further education college have now achieved a Quality Mark which recognises universities' commitment to providing support and additional funding for people of all ages with a care background. The Frank Buttle Trust Quality Mark for Care Leavers in Higher Education identifies institutions which have improved care leavers' academic skills to succeed in school, college and university.

Ymrwymiad prifysgolion Cymru i bobl ifanc sy'n gadael gofal

Gwelwyd cynnydd eto yn nifer y prifysgolion yng Nghymru sydd wedi ymrwymo i helpu pobl sy'n gadael gofal i wireddu eu potensial llawn.

Erbyn hyn mae wyth prifysgol ac un coleg addysg bellach yng Nghymru wedi ennill Nod Ansawdd sy'n cydnabod eu hymrwymiad i ddarparu cymorth ac arian ychwanegol i bobl o bob oedran sydd â chefndir gofal. Mae Nod Ansawdd Ymddiriedolaeth Frank Buttle ar gyfer Ymadawyr Gofal mewn Addysg Uwch yn cael ei ddyfarnu i sefydliadau sydd wedi gwella sgiliau academaidd pobl sy'n gadael gofal i'w helpu i lwyddo yn yr ysgol, coleg neu brifysgol.

Diverse student body in Welsh universities

UK-wide figures showed that universities and colleges in Wales continued to perform well in recruiting students from under-represented groups.

The Welsh higher education sector recorded similar or higher proportions of students from most under-represented groups in HE compared to the UK as a whole.

The figures for the 2007/08 academic year showed the Welsh HE sector's achievements in widening participation, with particular successes in the recruitment of full-time undergraduate students who received a disabled students' allowance, and of young, full-time undergraduates from state schools.

Professor Philip Gummett, Chief Executive of HEFCW, said: "Welsh institutions continue to perform well in the UK context, and will continue to spread the word that those who have the ability to benefit from the HE experience should give it a go. This includes using the *Reaching Wider* partnership programme, where institutions work directly with schools in

Corff amrywiol o fyfyrwyr ym mhrifysgolion Cymru

Mae ffigurau ar gyfer y DU yn dangos bod prifysgolion a cholegau yng Nghymru wedi parhau i wneud yn dda wrth recriwtio myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae'r sector addysg uwch (AU) Cymreig wedi cofnodi cyfrannau tebyg neu uwch o fyfyrwyr o'r mwyafrif o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch o'i gymharu â'r DU yn ei chyfanrwydd.
Mae'r ffigurau ar gyfer y flwyddyn academaidd 2007/08 yn dangos sut mae'r sector AU yng Nghymru wedi llwyddo i ehangu cyfranogiad mewn AU, a'i lwyddiant, yn arbennig, i recriwtio israddedigion amser-llawn a oedd yn derbyn lwfans myfyrwyr anabl, ac israddedigion amser-llawn ifanc o ysgolion y wladwriaeth.

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Mae sefydliadau Cymru'n parhau i berfformio'n dda yng nghyd-destun y DU a byddant yn parhau i ledaenu'r neges y dylai'r rheiny sydd â'r gallu i elwa ar y profiad addysg uwch roi cynnig arni. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r rhaglen bartneriaeth *Ymgyrraedd yn Ehangach*, lle mae sefydliadau'n gweithio'n

disadvantaged areas, minority ethnic communities, disabled people and those interested in pursuing Welsh medium courses."

W09/21HE: Widening Access: Looked After Children and Care Leavers

This gives information about higher education institutions' progress in supporting looked after children (LAC) and care leavers, including examples of effective practice from Wales and across the UK.

uniongyrchol ag ysgolion mewn ardaloedd dan anfantais, cymunedau ethnig lleiafrifol, pobl anabl, a'r rheiny sydd â diddordeb mewn dilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg."

W09/21HE: Ehangu Mynediad: Plant Dan Ofal ac Ymadawyr Gofal

Mae hwn yn rhoi gwybodaeth am y cynnydd sy'n cael ei wneud gan sefydliadau addysg uwch ym maes cefnogi plant dan ofal ac ymadawyr gofal, gan gynnwys enghreifftiau o arfer effeithiol o Gymru a'r DU.

GO Wales graduate employability initiative
http://www.gowales.co.uk/
Minister praises 'get up and go' of GO Wales graduates

Education Minister Jane Hutt visited Daydream Education in Bridgend to see the success of their involvement with the GO Wales Programme

Scott Ace applied his placement with Daydream Education after attending the new GO Wales Graduate Academy which was piloted in July 2009.

Scott Ace, GO Wales Graduate said: "Doing a GO Wales placement has given me the opportunity to gain vital experience as a Graphic Designer within a working environment. The achievement goals which were set with GO Wales at the start of the placement have been an excellent way for me to make sure I get everything I can out of the time on the placement."

Cynllun cyflogadwyedd graddedigion GO Wales
http://www.gowales.co.uk/
Gweinidog yn canmol menter graddedigion GO Wales

Bu'r Gweinidog Addysg Jane Hutt yn ymweld â Daydream Education ym Mhen-y-bont ar Ogwr i weld sut y mae'r cwmni'n gweithio'n llwyddiannus â'r Rhaglen GO Wales.

Gwnaeth Scott Ace gais am leoliad gyda Daydream Education ar ôl mynychu Academi Graddedigion GO Wales a ragbrofwyd ym mis Gorffennaf 2009.

Meddai Scott: "Mae mynd ar leoliad GO Wales wedi rhoi cyfle i mi gael profiad amhrisiadwy fel Dylunydd Graffig o fewn amgylchedd gwaith. Mae'r nodau cyflawniad a osodwyd gyda GO Wales ar ddechrau'r lleoliad wedi bod o gymorth mawr i sicrhau fy mod i'n manteisio i'r eithaf ar yr amser sydd gen i yma."

Hefyd ymwelodd y Gweinidog â Forum Europe yng Nghaerdydd i gyfarfod â Laura Cooper-

The Minister also visited Forum Europe in Cardiff to meet Laura Cooper-Young, formerly on a GO Wales placement with the company, to discuss her own GO Wales experience and how it lead to successful permanent employment as an Event Development Executive.

Laura said: “As I approached the end of my degree in journalism, film and media studies, I was unsure of the direction I wanted my career to go in, especially given the current economic climate. My GO Wales placement was varied and engaging, and has led to full time employment in a field that I may not have otherwise discovered, but now thoroughly enjoy.”

GO Wales graduate interview



The GO Wales graduate employability programme, helps students and graduates from Welsh universities to find work - or work experience - in Wales, and encourages Welsh businesses to look to home grown talent to meet their high level skills needs.

It is delivered from 11 Welsh higher education institutions and offers services to undergraduates, graduates and businesses throughout Wales.

In August 2009, Lowri Russell embarked on a 10-week paid GO Wales work placement in HEFCW as Welsh Language and Communications officer after graduating from Cardiff University in the summer of 2009 with a degree in Law and Welsh.

Young, a fu ar leoliad GO Wales gyda’r cwmni, i drafod ei phrofiad hi o GO Wales a sut yr arweiniodd at swydd barhaol fel Gweithredwr Datblygu Digwyddiadau.

Meddai Laura: “Wrth i mi ddynesu at ddiwedd fy ngradd mewn newyddiaduraeth ac astudiaethau ffilm a chyfryngau, doeddwn i ddim yn siŵr i ba gyfeiriad yr oeddwn am fynd gyda’m gyrfa, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol. Roedd fy lleoliad GO Wales yn amrywiol a difyr ac mae ef wedi arwain at gyflogaeth amser-llawn mewn maes na fyddwn o bosib wedi’i ddarganfod fel arall, ond sy’n rhoi pleser mawr i mi bellach.”

Cyfweliad GO Wales



Mae’r cynllun cyflogadwyedd graddedigion GO Wales yn helpu myfyrwyr a graddedigion o brifysgolion Cymru i ddod o hyd i waith - neu brofiad gwaith - yng Nghymru, ac yn annog busnesau Cymreig i chwilio am ddoniau lleol i gwrdd â’u hanghenion o ran sgiliau lefel uchel.

Mae 11 o sefydliadau addysg uwch Cymru yn cymryd rhan ac mae’n cynnig gwasanaethau i israddedigion, graddedigion a busnesau ar hyd a lled Cymru.

Ym mis Awst 2009, dechreuodd Lowri Russell leoliad gwaith GO Wales 10 wythnos o hyd yn CCAUC fel swyddog Iaith Gymraeg a Chyfathrebu ar ôl graddio ym Mhrifysgol Cymru yn haf 2009 gyda gradd yn y Gyfraith a Chymraeg.

- Sut y daethoch i wybod am GO Wales?

Drwy ffrind a fu ar leoliad yn ystod gwyliau’r haf y llynedd. Roeddwn yn hoffi’r

- How did you find out about GO Wales?

Through a friend who was on a placement during the summer break last year. I joined the website and started looking. Although there weren't many placements of interest during term time, I continued to look at the website as it's a good tool for careers advice. I started to look more closely for placements in July as employers started to post placements for the summer.

- What motivated you to look for a GO Wales placement?

It's a good way to gain some relevant experience, and you can earn a wage to rival a whole summer working in a retail store! Working in a shop during past summer holidays had served me well and I had gained some good skills, but I didn't feel they were all transferable enough to adapt to a professional working environment. Also, I was unsure about whether I would enjoy working in an office environment, and the only way to find out was to gain some experience.

- What were your expectations of a placement?

I received information through the GO Wales website and about HEFCW. I was only aware of my role through the application information. I was aware that I would be working in a more professional manner and environment than I had previously worked. My main expectation was to gain further transferable skills to help me in the workplace, since most of my work over the past three years was academic.

- What did you think of the office environment?

I immediately felt like a member of staff instead of a graduate on a temporary placement, and felt comfortable throughout my stay. Staff members were willing to guide me as I learned the ropes.

- How have you benefited?

wefan a dechreuais edrych. Er nad oedd llawer o leoliadau a oedd o ddiddordeb i mi yn ystod y tymor academaidd, dalies i ddefnyddio'r wefan gan ei bod yn cynnwys llawer o gyngor da ar yrfaoedd. Dechreuais chwilio'n fwy dyfal am leoliadau ym mis Gorffennaf wrth i gyflogwyr ddechrau hysbysebu lleoliadau ar gyfer yr haf.

- Beth wnaeth eich ysgogi i fynd i chwilio am leoliad GO Wales?

Mae'n ffordd dda o gael peth profiad perthnasol, a gallwch ennill cymaint o gyflog ag y byddech chi'n ei gael am weithio am haf cyfan mewn siop! Roeddwn i wedi gweithio mewn siop yn ystod gwyliau'r haf yn y gorffennol ond er i mi ddysgu rhai sgiliau da doeddwn i ddim yn teimlo eu bod nhw i gyd yn ddigon trosglwyddadwy i fod o ddefnydd mewn amgylchedd gwaith proffesiynol. Hefyd, doeddwn i ddim yn siŵr a fyddwn i'n mwynhau gweithio mewn swyddfa, a'r unig ffordd o gael gwybod oedd drwy gael peth profiad.

- Beth oeddech chi'n disgwyl ei ennill o'r lleoliad?

Cefais wybodaeth am y lleoliad ac am CCAUC drwy wefan GO Wales. Cefais fy holl wybodaeth am y swydd o'r manylion ddaeth gyda'r ffurflen gais. Gwyddwn y byddwn i'n gweithio mewn ffordd ac mewn amgylchedd mwy proffesiynol nag o'r blaen. Fy mhrif ddisgwyliad oedd y byddwn i'n ennill rhagor o sgiliau trosglwyddadwy i'm helpu yn y gweithle, gan fod y rhan fwyaf o'm gwaith yn ystod y tair blynedd ddiwethaf wedi bod yn academaidd.

- Beth yw eich barn am weithio mewn swyddfa?

Teimlais fel aelod o'r staff yn syth yn hytrach na myfyriwr graddedig ar leoliad dros dro, a theimlais yn gysurus drwy gydol fy nghyfnod yno. Roedd y staff yn fwy na pharod i helpu wrth i mi ddysgu'r swydd.

- Pa fudd gawsoch chi?

Rydw i wedi ymgyfarwyddo â gwaith swyddfa ac roeddwn i'n gallu defnyddio a

I became accustomed to an office environment and was able to use and transfer the skills and knowledge I gained in my degree and put them to good use in a professionally.
My confidence grew to put forward ideas and not be afraid of feedback. I felt I was able to adapt quickly and well to new challenges and develop new skills, such as website editing. I felt comfortable working under my own initiative when tackling tasks that need to be completed, sometimes under pressure. I now have stronger professional communication and project management skills.

- Would you recommend a placement to other graduates?

Yes I would. The placement enabled me to fine tune the qualities I already had and helped me develop others. A GO Wales placement lets you understand the working environment such as office hours, team meetings, organising your work load, etc. It also enables you to become more confident in the work place while gaining valuable experience and becoming an ideal job candidate for the future.

A placement is an excellent opportunity and career-advancing tool Ensure that the placements you apply for are of an interest to you so that you can make the most of them and enjoy them to the full.

throsglwyddo'r sgiliau a gwybodaeth a ddysgais wrth wneud fy ngradd a gwneud defnydd da ohonynt mewn amgylchedd proffesiynol.
Deuthum yn ddigon hyderus i gynnig syniadau ac i beidio ag ofni adborth. Teimlais fy mod i'n addasu'n gyflym ac effeithiol i sialensiau newydd, a fy mod i'n meithrin sgiliau newydd, megis golygu'r wefan. Teimlais yn gysurus wrth weithio ar fy mhen fy hun i gwblhau tasgau mewn pryd, weithiau o dan bwysau. Erbyn hyn mae gen i sgiliau cyfathrebu proffesiynol a rheoli prosiect cryfach.

- A fyddech chi'n argymell lleoliad i raddedigion eraill?

Byddwn. Roedd y lleoliad yn gyfrwng i mi fireinio'r rhinweddau a oedd gen i eisoes ac i feithrin rhinweddau eraill. Mae lleoliad GO Wales yn eich helpu i ddeall yr amgylchedd gwaith megis oriau swyddfa, cyfarfodydd tîm, trefnu eich baich gwaith, ac ati. Mae hefyd yn eich galluogi i ddod yn fwy hyderus yn y gweithle wrth ennill profiad gwerthfawr, ac i ddod yn ymgeisydd delfrydol ar gyfer swydd yn y dyfodol.

Mae lleoliad yn gyfle gwych ac yn fodd i hyrwyddo'ch gyrfa. Gwnewch yn siŵr fod y lleoliadau y gwnewch gais amdanynt o ddiddordeb i chi fel y gallwch wneud y gorau ohonynt a'u mwynhau i'r eithaf.

Coming up in 2010

Equality and Diversity Annual Report

Graduate Teacher Programme consultation – ends 29 January 2010

The Welsh Assembly Government is seeking views on proposed future arrangements for administering the Employment-based Teacher Training Scheme. It proposes to transfer the administrative and funding arrangements to HEFCW and to initial teacher training (ITT) providers. The Welsh Assembly Government is also seeking views of the terms of a revised Scheme, which would take effect from 1 September 2011.

I ddod yn 2010

Yr Adroddiad Blynyddol ar Ansawdd ac Amrywiaeth

Ymgynghoriad ar y Rhaglen Athrawon Graddedig – yn gorffen 29 Ionawr 2010

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ceisio barn ar drefniadau yn y dyfodol ar gyfer gweinyddu'r Cynllun Hyfforddi Athrawon ar Sail Cyflogaeth. Mae'n cynnig y gellid trosglwyddo'r trefniadau gweinyddol a chyllidol i CCAUC ac i'r darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA). Hefyd mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio barn ar delerau Cynllun diwygiedig, a fyddai'n dod i rym ar 1 Medi 2011.